CAN DDIGRIF

cymhorth i bawb i chwerthin

Cyfraith Newydd y Cwn,

SEF

Coron yn y Flwyddyn ar bob Ci gan y Tlodion a'r Mawrion heb ddim gwahaniaeth.

Cenir ar "Ymdaith Abermaw."

Dewch yn awr drigolion Cymru,
Yma i wrando am y trethi
Am y Cwn sydd wedi 'gosod :
Rhyfedd na ba'i treth ar gathod.

Mawr yw'r son, yma sy',
Am y tâl ym mhob ty;
Rhaid i'r tylodion fel y mawrion
Dalu coron am un ci.

Gwelir rhai bob dydd yn myned,
Tua'r Swyddfa 'mofyn trwydded ;
Ca'dd rhyw wraig ei thrin yn greulon,
Gan y gwr am dalu coron.
Mawr yw'r son yma sy', &c.

Y gwr a dd'wedi mynai' grogi,
Cyn y gwnai ef byth 'i dalu ;
A'r wraig yn foddion byw heb swper
Bob nos, ond peidio crogi Pinsier.
Mawr yw'r son, yma sy', &c.

Mae yn achos i ni ofni,
Bydd y defaid hyd y gerddi ;

Llawer ffermwr sy'n anfoddlon,
Am y ci i dalu coron.
Mawr yw'r son, yma sy', &c.

Dim ond coron am y Milgi,
A'r Bytheiad gyda hynny;
Newffoundland yn nghyd a'r Bwldog,
A'r Daeargi bach a'r Lapdog.
Mawr yw'r son, yma sy',

Dros y ffermwyr 'rwyf yn teimlo,
Talu am y cwn bugeilio;
Nis gall dyn ddim ro'i cyfarthiad,
Fel y ci i droi y ddafad,
Mawr yw'r son, yma sy', &c.

Dywed Shon, o'r Gellilydan,
Maent hwy wedi trethu'r arian;
Trethu'r cwn, heblaw tybacco,
A threth mewn llawer man am biso.
Mawr yw'r son, yma sy', &c.

Gwelwes gwn yn tywys deillion,
Am y rhai'n rhaid talu coron;
Dynion tlawd sy'n gorfod begian:
Pwrs y wlad raid talu'r cyfan.
Mawr yw'r son, yma sy', &c.

Beth a ddaw o'r caeau gwyrddion,
A'r holl erddi sydd mor ffrwythlon;
Nid yn hawdd y gall bugeiliaid
Heb y cwn i gadw'r defaid.
Mawr yw'r son, yma sy', &c.

Y mae llawer wedi eu boddi,
A rhai eraill wedi eu crogi;

Mary fach wnai guddio'r Lapdog,
Rhwng ei gown a'i phais a'i ffedog.
Mawr yw'r son, yma sy', &c.

Clywais fod cwn bach yn myned
O dan grinolines y merched;
Llechu yno'n ddistaw ddigon—
Mae hyny'n well na thalu coron.
Mawr y son, yma sy', &c.

Clywais ddyweyd fod Sian, o'r Forty,
Yn cuddio'r ast yn nhraed y gwely,
Rhag i'r trethwr yno 'i gweled,
Am ei bod heb godi trwydded.
Mawr yw'r son, yma sy', &c.

Darfu llawer lleben diog,
Gadw ci i ddal 'sgyfarnog,
Ond yn awr nid yw e'n foddlon,
Crogi'r ci, na thalu coron.
Mawr yw'r son, yma sy', &c

Y mae llawer iawn o drethi,
Eisieos arnom ni'r hen Gymry;
Mae John Bwl yn awr yn cwyno,
Fod ei faith mor drwm i'w gario.
Mawr yw'r son, yma sy', &c.

'R wy'n dymuno, wrth derfynu,
Na bo'r plant yn cael eu trethu;
A dewch chwithau 'mlaen yn serchog,
I brynu hyn o gan am geiniog.

Mawr y son, yma sy',
Am y tâl ym mhob ty;
Rhaid i'r flodion fel y mawrion.
Dalu coron am un ci.

Llanybyther. D. JONES.

Pan Johnny ddaw 'nol i Dref.

"When Johnny comes Marching Home."

Pan Johnny eto ddaw i dref, Hwre! hwre!
Rho'wn roesaw calon iddo ef, Hwre! hwre!
Ymlona'r gwyr, a bloeddia'r plant,
A'r holl lodesi allan ant;
A phawb fydd lon.
Pan Johnny ddaw 'nol i dref.

Hen glychau'r Eglwys seinia'n hy, Hwre! hwre!
I roesaw gartre'n bachgen cu, Hwre! hwre!
Y llangciau a llangcesi'r llan
A rhôs a daena'r ffordd bob man;
A phawb fydd lon,
Pan Johnny ddaw 'nol i dref.

I'r jubil parod fo'm ar air, Hwre! hwre!
I'r arwr rhoddwn dair gwaith tair, Hwre! hwre!
'Nawr parod yw'r pleth-lawryf hael
I'w rhoddi ar ei ffyddlawn ael;
A phawb fydd lon,
Pan Johnny ddaw 'nol i dref.

Boed serch, brawdgarwch, ar y dydd, Hwre! hwre!
Ein prif drysorau ledo'n rhydd, Hwre; hwre!
Cyflawni boed pob un ryw ran,
I loni col yr arwr can;
A phawb fydd lon,
Pan Johnny ddaw 'nol i dref.

Cyf. Meiriadog.